# GREENER GRANGETOWN WERDDACH

**Rhagfyr 2017**

Annwyl Breswylydd,

Diolch i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod gwaith adeiladu Grangetown Werddach. Ers ein diweddariad diwethaf ym mis Awst, mae cynnydd da wedi ei wneud ac rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith erbyn gwanwyn 2018. Dros gyfnod y Nadolig bydd yr holl gyffyrdd a strydoedd ar agor yn yr ardal ac fe gaiff y ffensio ei dynnu lawr lle bo hynny'n bosibl.

**Beth yw Grangetown Werddach?**

Mae Grangetown Werddach yn broject blaengar gwerth £2m sy'n ceisio gwella rheolaeth dŵr glaw yn Grangetown. Mae'r project yn golygu gosod ardaloedd wedi'u plannu i helpu i amsugno'r dŵr, cynyddu bioamrywiaeth a chynnig mwy o lecynnau gwyrdd i breswylwyr. Partneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yw'r project.



**Beth am barcio?**

Gwyddom mai parcio tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo yw ***y*** brif ofid i breswylwyr. Wrth i fwy o strydoedd gael eu cwblhau, byddwn yn cynghori pryd a lle i wneud cais am drwyddedau parcio i breswylwyr.

Unwaith i'r project gael ei gwblhau, bydd 50% o'r parcio sydd ar gael ar y 12 stryd sydd dan fantell y project ar gyfer preswylwyr yn unig.

**Diweddariad Project: Ble ydym ni erbyn hyn?**

Erbyn y Nadolig, bydd y gwaith adeiladu fwy neu lai wedi ei gwblhau ar Ferndale St, Coedcae St, Blaenclydach St, Clydach St (nid oes arwyneb newydd yn cael ei osod eto), Bargoed St, Aber St ac Abercynon St.

Bydd sawl gardd law ar Lannau'r Taf, y cyffyrdd â Corporation Road, arwyddion a llinellau ffyrdd newydd, ynghyd â rhai goleuadau ychwanegol. Bydd rhai coed wedi eu plannu.

**Beth nesaf?**

Bydd gwaith ailosod arwyneb ffordd Clydach Street yn dechrau yn y Flwyddyn Newydd, a bydd gwaith yn dechrau ar Cymer St, Ystrad St a Taff Terrace.

Bydd plannu coed a llwyni hefyd yn parhau yn y Flwyddyn Newydd – gyda chyfraniad y preswylwyr lleol gobeithio.

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

CARDIFF CAERDYDD

# GREENER GRANGETOWN WERDDACH

**Glannau'r Taf: 'Stryd feicio' 1af Cymru**

Unwaith iddo gael ei gwblhau, y cynllun blaengar hwn fydd y dyluniad cyntaf o'i fath yng Nghymru, gan wella'n sylweddol yr amodau ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Bydd y gosodiad newydd yn arafu ac yn lleihau y traffig trwodd – ond gan gadw mynediad i gerbydau i bob preswylydd lleol – gan ei gwneud yn fwy diogel a llai o dagfeydd.

**Beth am y coed a'r llwyni?**

Yn ogystal â ffurfio rhan o'r gerddi glaw, nod y coed a'r llwyni yw dod â hunaniaeth gydlynol i ardal Grangetown Werddach.

Bydd gosodiad, rhywogaeth, siapiau a lliwiau'r plannu yn rhoi golwg unigol i bob stryd. Bydd cyfanswm o 127 o goed yn cael eu plannu – cyfanswm o 19 o wahanol rywogaethau.

Mae'r holl goed a gaiff eu plannu yn rhannu rhai nodweddion penodol:

- Yn gyffredinol byddant yn gollddail gan wneud y gorau o'r goleuni yn y gaeaf.
- 'Coed Stryd' a all oddef amgylcheddau trefol.
- Coed sy'n cynnig elfen o ddiddordeb drwy gydol y flwyddyn oherwydd lliw'r dail, y rhisgl neu'r blodau.
- Daw'r holl goed o'r DU.
- Coed â pharthau rheoli gwreiddiau.
- Coed â bonyn 2.5 metr clir i atal fandaliaeth.
- Coed â gwerth bioamrywiaeth uchel.

**Beth yw gardd law?**

Mae gerddi glaw yn ardaloedd plannu sy'n dynwared yr amgylchedd naturiol ac yn cynnig dull cynaliadwy i ddal a glanhau dŵr glaw. Mae hyn yn enghraifft o'r golwg a fydd arnynt ar ôl eu cwblhau:



**Beth os oes angen trafod y project arnaf?**

Os mai problem am y safle sydd gennych, cysylltwch â Ken Evans ar 07972 126806.

Gallwch hefyd gysylltu drwy gyfrwng ein:-

Gwefan: www.greenergrangetown.wordpress.com
Twitter: @greenergrange
E-bost: grangetownwerddach@caerdydd.gov.uk

Neu, galwch draw i Hyb Grangetown o 1 - 2pm ar ddydd Mercher, neu 6 – 7pm ar ddydd Mercher cyntaf y mis, ar gyfer un o'n sesiynau galw heibio.

**Ac i orffen... diolch mawr unwaith eto i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad tra bod y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. *Nadolig Llawen!***

Dŵr Cymru Welsh Water · Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales · Cardiff Caerdydd